# Gofal Plant



**Os rydych yn mwynhau gweithio gyda phlant, gall prentisiaeth mewn gofal plant fod yn yrfa berffaith i chi!**

Mae angen i bobl sy'n astudio tuag at y cymhwyster hwn fod yn gweithio mewn lleoliadau gofal plant a reoleiddir gyda theuluoedd a phlant o dan 8 oed a/neu wasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0-19 oed.

Bydd Prentisiaid yn mynd i weithdai ac yn dysgu'r wybodaeth greiddiol yn ogystal â chael eu hasesu yn y gweithle gan ein timau sydd â phrofiad yn y diwydiant.

Bydd angen i ddysgwyr yn y diwydiant hwn fod â llawer o egni, creadigrwydd a gallu gweithio'n dda fel rhan o dîm.

## Cymwysterau rydym yn eu cynnig

| Cwrs | Gofynion mynediad | Hyd arferol | Dull astudio ac asesu | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 2 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol fel cymhorthydd mewn amgylchedd gofal plant | 16 mis | Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg | Yn y gweithle a rhyddhau o'r gwaith |
| Lefel 3 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Dttblygiad Plant | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol mewn amgylchedd gofal plant mewn swydd goruchwyliaeth | 18 mis | Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg | Yn y gweithle a rhyddhau o'r gwaith |
| Lefel 4 mewn Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol mewn amgylchedd gofal plant mewn swydd goruchwyliaeth uwch | 21 mis | Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg | Yn y gweithle a Glannau Dyfrdwy ac Iâl |
| Lefel 4 mewn Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol mewn swydd reoli mewn amgylchedd gofal plant | 24 mis | Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg | Yn y gweithle a Glannau Dyfrdwy ac Iâl |
| Lefel 5 mewn Arwain a Rheoli mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol | 9 mis | Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg | Yn y gweithle a Glannau Dyfrdwy ac Iâl |

## Ystadegau/disgwyliadau cyflog y diwydiant

**Mae'r galw yn y dyfodol am Gynorthwywyr Meithrin a swyddi cysylltiedig yn uchel o gymharu â swyddi eraill yng Nghymru**

(EMSI, 2022)

## Awgrym gorau

**Ceisiwch gysylltu â chwmnïau lleol yn uniongyrchol os ydych yn chwilio am brentisiaeth neu cadwch lygad am ddigwyddiadau recriwtio sydd wedi'u trefnu gan y Coleg os ydych yn fyfyriwr llawn amser.**